

Cofiadur 2019

Dyddiad lansio: 16 Gorffennaf 2019 – 13:00

Dyddiad cau: 30 Gorffennaf 2019 – 13:00

Nifer y swyddi gwag: hyd at 100

Cyflog: £654.94 y dydd

Lleoliad: Ledled Cymru a Lloegr

Mae awdurdodaeth Cofiadur yn debyg i awdurdodaeth Barnwr Cylchdaith. Mae'n ofynnol i Gofiaduron ddarllen a chymathu papurau achos cyn i wrandawriad neu dreial gychwyn a chwarae rôl weithredol yn rheoli'r achos. Rhaid i Gofiaduron reoli'r ffordd y cynhelir achosion a phenderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r gyfraith a gweithdrefnau a all godi yn ystod achos a ddarparu rhesymau dros unrhyw ddyfarniad.

Pwy all wneud cais

Gwahoddir ceisiadau gan gyfreithwyr a bargyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr sydd ag o leiaf 7 mlynedd o brofiad cyfreithiol ar ôl cymhwyso. Hefyd, dylai fod ymgeiswyr yn gallu gwasanaethu am gyfnod rhesymol o amser, 4 blynedd fel arfer, cyn cyrraedd yr oedran ymddeol statudol, sef 70.

Er y rhagwelir y bydd swyddi gwag ar draws yr holl awdurdodaethau (trosedd, sifil a theulu), nid yw profiad o'r holl awdurdodaethau yn hanfodol ar gyfer penodi a gwneir argymhellion ar sail teilyngdod yn unig.

Paratoi eich cais

Trwy gydol y broses ddethol, bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu yn erbyn y [fframwaith cymwyseddau](#) sydd wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer swydd Cofiadur. Mae'r cymwyseddau wedi'u halinio â'r fframwaith Sgiliau a Galluoedd Barnwrol a ddefnyddir gan y farnwriaeth a'r Coleg Barnwrol, ac mae'n rhestru'r ffyrdd y gall unigolyn arddangos y sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol wrth weithio'n effeithiol yn y swydd.

Fel rhan o'ch cais bydd gofyn ichi ddarparu, mewn dim mwy na 250 o eiriau ar gyfer pob cymhwysedd, enghreifftiau penodol sy'n dangos sut mae eich profiadau yn eich gwneud yn addas ar gyfer y swydd. Ceir gwybodaeth bellach am [gwblhau'r hunanasesiad](#) a [dewis yr enghreifftiau gorau](#) ar wefan y JAC. Fe'ch cynghorir i ddechrau paratoi eich enghreifftiau ymlaen llaw, gan neilltuo amser digonol i baratoi enghreifftiau perthnasol sy'n arddangos eich addasrwydd ar gyfer y swydd.

Gallwch hefyd [greu cyfrif ar-lein](#) cyn ichi wneud cais. Cyn gallu gwneud cais am swydd farnwrol gan ddefnyddio system ymgeisio ar-lein y JAC, rhaid i bob ymgeisydd greu cyfrif. Bydd eich cyfrif yn cynnwys eich proffil personol, eich proffil cymeriad a'ch proffil amrywiaeth. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei storio ar y system hefyd, felly os byddwch yn gwneud cais am swydd arall yn y dyfodol, dim ond diweddarau eich manylion fydd angen, gan wneud y broses ymgeisio yn gyflymach ac yn haws.

Ynghylch y broses

Bydd y broses ddethol yn cynnwys 3 cham:

- prawf amlddewis ar-lein
- prawf sefyllfaoedd ar-lein
- diwrnod dethol a fydd yn cynnwys cyfweiliad ac ymarfer chwarae rôl

Dim ond yr ymgeiswyr mwyaf teilwng fydd yn symud ymlaen o un cam i'r llall.